***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 3092 (Cy.266)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *23 Tachwedd 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *24 Tachwedd 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 32, 105 a 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 24 Tachwedd 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau yn gymwys i Gymru yn unig.

### Diwygio Rheoliadau

**2.** Diwygir Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2001(**2**) fel a ganlyn —

(a) yn rheoliad 2, (ym mharagraff (i)) o'r diffiniad o "pwyllgor ardal" dileer "gyda phwerau dirprwyedig i arfer rhai neu'r cyfan o'r swyddogaethau yn rhan A o Atodlen 1";

(b) yn is-baragraff (2)(b) o reoliad 4 mewnosoder ar y diwedd "a'r is-bwyllgorau";

(c) ym mharagraff (2)(a) o reoliad 8 ar ei ddiwedd dileer "a" a mewnosoder "neu";

(ch) yn is-baragraff (9)(a) o reoliad 10 mewnosoder ar y dechrau —

> "yn ddarostyngedig i'r darpariaethau ynglŷn â chyfrifo sylfaen y dreth gyngor ym mharagraff 22 o Atodlen 2";

(d) ym mharagraff (1) o reoliad 14 ar ôl "gyfrifoldeb" mewnosoder —

> "i'r awdurdod lleol (heblaw'r rhai y mae'n rhaid iddynt gael eu cyflawni gan awdurdod cyfan yn unig) neu";

(**1**) 2000 p.22.

(**2**) O.S. 2001/2284 (Cy.173) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cynrychiolwyr Rhieni-lywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysi (Cymru) 2001, O.S. 2001/3711 (Cy. 307), Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2002, O.S. 2002/810 (Cy. 90), a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2003, O.S. 2003/155 (Cy.25).

(dd) yn Atodlen 1 (Swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Fwrdd awdurdod) yn unol â Rhan 1 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn;

(e) yn Atodlen 2 (Swyddogaethau a all fod yn gyfrifoldeb i Fwrdd awdurdod (ond nad oes angen iddynt fod felly)) yn unol â Rhan 2 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn;

(f) yn Atodlen 3 (Swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Fwrdd awdurdod yn unig) yn unol â Rhan 3 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis-Thomas*
23 Tachwedd 2004 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

ATODLEN 1 Rheoliad 2

## Rhan 1

### Diwygiadau i Atodlen 1

**1.** Yn Rhan B mewnosoder ar ôl paragraff 66:

| **Y Swyddogaeth** | **Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** |
|---|---|
| **67.** Swyddogaethau mewn perthynas â sefydlu Pwyllgor Trwyddedu . | Adran 6 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (p.17). |

**2.** Yn Rhan I:

(1) dileer paragraffau 18, 19; a

(2) mewnosoder ar ôl paragraff 17:

| **Swyddogaethau** | **Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** |
|---|---|
| **18.** Y pwerau mewn perthynas â chofrestru gweithredwyr achub cerbydau modur. | Rhan 1 o Ddeddf Cerbydau (Troseddau) 2001 (p.3). |
| **19.** Y pŵer i benodi swyddogion at ddibenion penodol (penodi "priod swyddogion"). | Adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. |
| **20.** Y ddyletswydd i ddynodi swyddog yn bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod, ac i ddarparu staff etc. | Adran 4(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42). |
| **21.** Y ddyletswydd i ddynodi swyddog yn swyddog monitro, ac i ddarparu staff, etc. | Adran 5(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. |
| **22.** Y ddyletswydd i benderfynu terfyn benthyca fforddadwy. | Adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.22). |
| **23.** Cymeradwyo strategaeth fuddsoddi flynyddol yn unol â chanllawiau. | Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. |
| **24.** Y ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu materion ariannol yn briodol. | Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p.11). |

## RHAN 2

### Diwygiadau i Atodlen 2

Ar y diwedd, ychwaneger:

"**22.** Swyddogaethau ynglyn â chyfrifo sylfaen y dreth gyngor yn unol ag unrhyw un o'r canlynol —

(a) penderfynu swm ar gyfer eitem T yn adran 33(1) a 44(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;

(b) penderfynu swm ar gyfer eitem TP yn adrannau 34(3), 45(3), 48(3) a 48(4) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;

(c) penderfynu swm y mae ei angen i benderfynu swm ar gyfer yr eitem a grybwyllwyd ym mharagraff (a) neu (b) uchod.

**23.** Swyddogaethau trwyddedu yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Trwyddedu 2003 ac eithrio adran 6."

# RHAN 3

## Diwygiadau i Atodlen 3

**1.** Yng ngholofn (2) o'r paragraff ynglyn â'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol dileer "92" a mewnosoder "108".

**2.** Dileer y cofnod ynglyn â'r Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd.

**3.** Ar y diwedd, ychwaneger:

| **(1) Cynlluniau a Strategaethau** | **(2) Cyfeirnod** |
|---|---|
| Y pwerau i gymeradwyo Cynlluniau Strategol Partneriaeth Pobl Ifanc a Phartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc. | Adrannau 123, 124 a 125 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000. |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") yn darparu bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn pennu pa awdurdodau lleol a gaiff weithredu 'trefniadau amgen' h.y. trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r awdurdod nad ydynt yn golygu creu a gweithredu gweithrediaeth i'r awdurdod yn unol ag adran 31(1)(b) ac adran 32(1) o Ddeddf 2000.

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001") (fel y'u diwygiwyd) yn caniatáu i bob cyngor sir a phob cyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru weithredu trefniadau amgen, ar yr amod bod y trefniadau hynny ar y ffurf y mae Rheoliadau 2001 (fel y'u diwygiwyd) yn gofyn amdani.

Pennodd Rheoliadau 2001 swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifioldeb i Fwrdd awdurdod neu sydd i fod yn gyfrifoldeb i Fwrdd o'r fath i raddau cyfyngedig yn unig neu o dan amgylchiadau penodedig yn unig. Yn rheoliad 2 mae'r rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau i Reoliadau 2001 yn Atodlen 1 drwy ychwanegu at y rhestr o swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Fwrdd awdurdod, drwy ychwanegu at y rhestr o swyddogaethau yn Atodlen 2 a all fod yn gyfrifoldeb i Fwrdd awdurdod (ond nad oes angen iddynt fod felly) a diwygio Atodlen 3 drwy ychwanegu at y swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Fwrdd awdurdod yn unig.